

RHESTR O WELLIANNAU WEDI’U DIDOLI MARSHALLED LIST OF AMENDMENTS

Bil Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru) Legislation (Procedure, Publication and Repeals) (Wales) Bill

Mae’r gwelliannau â * ar eu pwys yn rhai newydd neu’n rhai sydd wedi’u haddasu
Amendments marked * are new or have been altered

Mae gwelliannau a nodir ag ‘R’ yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant
cofrestradwy o dan Reol Sefydlog 2 neu fuddiant perthnasol o dan Reolau Sefydlog 13 neu
17 wrth gyflwyno’r gwelliant.

Amendments marked ‘R’ mean that the Member has declared either a registrable interest
under Standing Order 2 or relevant interest under Standing Orders 13 or 17 when tabling
the amendment.

Caiff y Bil ei ystyried yn y drefn a ganlyn –	
The Bill will be considered in the following order –	
Sections 1 – 4	Adrannau 1 – 4
Schedule 1	Atodlen 1
Section 5	Adran 5
Schedule 2	Atodlen 2
Section 6	Adran 6
Schedule 3	Atodlen 3
Sections 7 – 8	Adrannau 7 – 8
Long title	Enw hir

Julie James

1

Gyda chefnogaeth / Supported by: Adam Price

Section 3, page 20, leave out lines 10 to 17 and insert –

‘The King’s Printer of Acts of Parliament is to exercise the functions conferred by this Part on the King’s Printer for Wales in respect of Acts of Senedd Cymru, Welsh statutory instruments and related documents.’.

Adran 3, tudalen 20, hepgorer llinellau 10 hyd at 17 a mewnosoder –

‘Mae Argraffydd Deddfau Seneddol y Brenin i arfer y swyddogaethau a roddir gan y Rhan hon i Argraffydd y Brenin ar gyfer Cymru mewn cysylltiad â Deddfau Senedd Cymru, offerynnau statudol Cymreig a dogfennau cysylltiedig.’.

Julie James

2

Schedule 1, page 34, line 26, leave out –

‘(1) to (3).

(3) Omit Schedule 5 (unitary development plans in Wales),

and insert –

‘(2) and (3)(b) and (c).

() In Schedule 5 (unitary development plans in Wales), omit Parts 2 and 3’.

Atodlen 1, tudalen 34, llinell 31, hepgorer –

‘(1) i (3).

(3) Hepgorer Atodlen 5 (cynlluniau datblygu unedol yng Nghymru),

a mewnosoder –

‘(2) a (3)(b) ac (c).

() Yn Atodlen 5 (cynlluniau datblygu unedol yng Nghymru), hepgorer Rhannau 2 a 3’.

Julie James

3

Schedule 1, page 35, leave out line 4 and insert –

‘() In section 204 (Wales: transitional provision in relation to blighted land) –

(a) in subsection (1), for “1 to” substitute “3 and”;

(b) in subsection (2), omit “1, 2,”;

(c) in subsection (3) –

(i) omit paragraphs (a) and (b);

(ii) in paragraph (c), omit “in the case of land falling within paragraphs 3 or 4 of Schedule 13 to TCPA 1990,”;

(d) in subsection (5), for “1 to” substitute “3 and”’.

Atodlen 1, tudalen 35, hepgorer llinell 5 a mewnosoder –

‘() Yn adran 204 (Cymru: darpariaeth drosiannol mewn perthynas â thir o dan falltod) –

(a) yn is-adran (1), yn lle “1 to” rhodder “3 and”;

(b) yn is-adran (2), hepgorer “1, 2,”;

(c) yn is-adran (3) –

(i) hepgorer paragraffau (a) a (b);

(ii) ym mharagraff (c), hepgorer “in the case of land falling within paragraphs 3 or 4 of Schedule 13 to TCPA 1990,”;

(d) yn is-adran (5), yn lle “1 to” rhodder “3 and”.’.

Julie James

4

Schedule 1, page 35, leave out line 9.

Atodlen 1, tudalen 35, hepgorer llinell 10.

Julie James

5

Schedule 1, page 35, line 12, leave out paragraph 21 and insert –

‘[] In Schedule 2 to the Planning and Compulsory Purchase Act 2004 (Commencement No. 6, Transitional Provisions and Savings) Order 2005, after “Part 2” insert “except section 28A”.’.

Atodlen 1, tudalen 35, llinell 13, hepgorer paragraff 21 a mewnosoder –

‘[] Yn Atodlen 2 i Orchymyn Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (Cychwyn Rhif 6, Darpariaethau Trosiannol ac Arbedion) 2005, ar ôl “Part 2” mewnosoder “except section 28A”.’.

Paul Davies

6

Page 28, after line 29, insert a new section –

‘[] Post-legislative scrutiny

After section 42 of the Legislation (Wales) Act 2019 (anaw 4), insert –

“42A Review of Parts 2A and 2B of this Act

- (1) The Counsel General must review the operation and effect of Parts 2A and 2B.
- (2) The review must be carried out during the period –
 - (a) beginning two years after the day on which those Parts come into force, and
 - (b) ending no later than three years after that day.
- (3) As part of the review the Counsel General must consult the Presiding Officer and the Clerk of the Senedd, and any other person the Counsel General considers appropriate.
- (4) The next annual report prepared by the Counsel General under section 2(7) after the review has been completed must contain –
 - (a) information about the matters considered as part of the review, and
 - (b) the Counsel General’s conclusions.”’.

This amendment to the Bill will in turn amend Part 4 of the Legislation (Wales) Act 2019 to require the Counsel General to undertake a review of the first two years of operation of new Parts 2A and 2B and lay a report on the findings before the Senedd. As part of the review there should be consultation with the Llywydd, the Clerk of Senedd Cymru and other persons with an interest.

Tudalen 28, ar ôl llinell 31, mewnosoder adran newydd –

[] Craffu ar ôl deddfu

Ar ôl adran 42 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 (dccc 4), mewnosoder –

“42A Adolygu Rhannau 2A a 2B o’r Ddeddf hon

- (1) Rhaid i’r Cwnsler Cyffredinol adolygu gweithrediad ac effaith Rhannau 2A a 2B.
- (2) Rhaid i’r adolygiad gael ei gynnal yn ystod y cyfnod –
 - (a) sy’n dechrau ddwy flynedd ar ôl y diwrnod y daw’r Rhannau hynny i rym, a
 - (b) sy’n dod i ben heb fod yn hwyrach na thair blynedd ar ôl y diwrnod hwnnw.
- (3) Fel rhan o’r adolygiad, rhaid i’r Cwnsler Cyffredinol ymgynghori â’r Llywydd a Chlerc y Senedd, ac unrhyw berson arall y mae’r Cwnsler Cyffredinol yn ei ystyried yn briodol.
- (4) Rhaid i’r adroddiad blynyddol nesaf a lunnir gan y Cwnsler Cyffredinol o dan adran 2(7) ar ôl i’r adolygiad gael ei gwblhau gynnwys –
 - (a) gwybodaeth am y materion a ystyriwyd fel rhan o’r adolygiad, a
 - (b) casgliadau’r Cwnsler Cyffredinol.””.

Bydd y gwelliant hwn, yn ei dro, yn diwygio Rhan 4 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 i’w gwneud yn ofynnol i’r Cwnsler Cyffredinol gynnal adolygiad o ddwy flynedd gyntaf gweithrediad Rhannau newydd 2A a 2B a gosod adroddiad ar y canfyddiadau gerbron y Senedd. Fel rhan o’r adolygiad, rhaid iddo ymgynghori â’r Llywydd, Clerc Senedd Cymru a phersonau eraill sydd â diddordeb.

Adam Price

7

Page 28, after line 29, insert a new section –

[] Activities to improve accessibility of Welsh law

After paragraph (d) of section 2(3) of the Legislation (Wales) Act 2019 (anaw 4), insert –

“(e) resolve any ambiguities, and correct any errors, in Welsh law.””.

Tudalen 28, ar ôl llinell 31, mewnosoder adran newydd –

[] Gweithgareddau i wella hygyrchedd cyfraith Cymru

Ar ôl paragraff (d) o adran 2(3) o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 (dccc 4), mewnosoder –

“(e) datrys unrhyw amwysedd, a chywiro unrhyw wallau, yng nghyfraith Cymru.”.